**Jane Hutt AC/AM**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**
**Leader of the House and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/LG/5337/16

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Mehefin 2017

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunydd Lluosogi (Cymru) 2017**

Yn unol â'r canllawiau, rwy'n eich hysbysu y bydd Adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cyflwyno'r rheol y bydd offerynnau statudol yn dod i rym o leiaf 21 diwrnod o ddyddiad eu gosod, yn cael ei thorri er mwyn gallu cyflwyno'r Rheoliadau diwygio uchod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol i chi er eich gwybodaeth.

Mae Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunydd Lluosogi (Cymru) 2017 yn rhoi ar waith 3 o Gyfarwyddebau'r UE sy'n cyflwyno cynlluniau ardystio Ewropeaidd wedi'u cysoni sy'n gosod safonau uchel ar gyfer deunydd lluosogi ffrwythau tra'n caniatáu marchnata deunydd sydd heb eu hardystio cyn belled â'u bod yn bodloni safonau gofynnol. Y tair Cyfarwyddeb yw:

- Cyfarwyddeb 2014/69/EC ar y gofynion ar gyfer labelu, selio a phecynnu planhigion ffrwythau a deunydd lluosogi;

- Cyfarwyddeb 2014/97/EC ar gofrestru cyflenwyr ac amrywiogaethau a rhestr gyffredin o amrywogaethau a

- Chyfarwyddeb 2014/98/EC ar ofynion penodol ar gyfer adnabod a phennu ansawdd planhigion ffrwythau a deunydd lluosogi;

Mae'r Cyfarwyddebau'n cyflwyno gofynion penodol ar gyfer adnabod a phennu ansawdd deunydd lluosogi ac ar gyfer eu labelu a'u pecynnu, er mwyn rhoi sicrwydd i brynwr y deunydd. Y rhywogaethau sydd fwyaf perthnasol i'r DU yw mefus, mafon, mwyar a llus; er

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bod afalau, gellyg ac eirin ac ati hefyd wedi'u cynnwys. Mae'r Rheoliadau'n dirymu ac yn amnewid Rheoliadau Marchnata Deunydd Planhigion Ffrwythau 2010.

Y dyddiad ar gyfer trosi'r Cyfarwyddebau hyn oedd 1 Ionawr 2017. Collwyd y dyddiad hwnnw am nifer o resymau, gan gynnwys oedi cyn rhyddhau'r ymgynghoriad, etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Refferendwm yr UE.

Gorfodir y Rheoliadau hyn yng Nghymru a Lloegr gan yr Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau (PHSI), rhan o Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion Defra. Er mwyn sicrhau'r un trefniadau gorfodi ar gyfer y diwydiant yng Nghymru a Lloegr, mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod dilyn arweiniad ac amserlen Defra wrth baratoi'r offeryn hwn.

Anfonodd y Comisiwn Ewropeaidd lythyr hysbysu ffurfiol (llythyr 'Jumbo') ddiwedd mis Ionawr atom am inni beidio â throsi'r Cyfarwyddebau hyn. Yn ein hateb, gwnaethom ymrwymo i ddyddiad trosi newydd o 19 Mehefin. Os bydd oedi ar ôl 19 Mehefin, bydd y Comisiwn yn debygol iawn o anfon barn resymedig.

Daeth deddfwriaeth debyg i rym yn Lloegr ar 1 Mehefin 2017 a thorrodd Defra y rheol 21 niwrnod er mwyn cadw at eu hymrwymiad i'r Comisiwn Ewropeaidd i ddod â'r Rheoliadau i rym erbyn 1 Mehefin 2017.

Mae'n flin gennyf orfod eich hysbysu, er mwyn inni allu dod â'r rheoliadau hyn i rym erbyn y dyddiad olaf gohiriedig, sef 19 Mehefin 2017, ar gyfer trosi'r Cyfarwyddebau a restrir uchod, a sicrhau bod y diwydiant yn cael marchnata deunydd ffrwythau cyn gynted â phosib, ni allwn ganiatáu 21 niwrnod cyn i'r offeryn hwn ddod i rym.

Cynhaliwyd ymgynghoriad wyth wythnos gan dargedu'r prif bartïon â diddordeb yng Nghymru a Lloegr. Welsh Fruit Stocks yw'r unig gwmni yng Nghymru sy'n cynhyrchu deunydd planhigion ffrwythau ardystiedig ac maen nhw'n aelod o'r Nuclear Stock Association (NSA) sydd ynghyd â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) yn rheoli'r cynllun gwirfoddol presennol. Cynhaliodd yr NSA gyfarfodydd i drafod y newidiadau arfaethedig gyda'i aelodau.

Dechreuodd yr ymgynghoriad wyth wythnos ar 30 Medi 2016 a daeth i ben ar 25 Tachwedd 2016:

- Roedd dau ymateb o blaid y newidiadau ac yn cefnogi amcanion y Gyfarwyddeb a'r ffordd y bwreidir ei rhoi ar waith trwy fabwysiadu'r cynllun gwirfoddol presennol. Ysgrifennodd un o'r ymatebwyr, y Dr Walpole, Cadeirydd yr NSA, at Defra i gadarnhau bod ei aelodau wedi cytuno'n unfrydol o blaid y cynigion.

- Dywedodd un ymatebydd y byddai'n well ganddo gadw cynllun domestig gwirfoddol a pheidio â rhoi Cyfarwyddebau'r UE ar waith, ond ni fynegodd farn fanylach.

Er mwyn sicrhau bod y cynigion yn gallu cael eu gorfodi yng ngweddill y DU, bu'n rhaid torri'r rheol 21 nwirnod.

Mae Asesiad o'r Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn. Mae Defra wedi paratoi Asesiad Triage Rheoleiddiol ar gyfer Cymru a Lloegr. Bydd y gwaith labelu'n golygu costau ychwanegol ond bydd y gwaith arolygu'n golygu gostwng costau, gan roi mantais fach gyffredinol. Fodd bynnag, mae Memorandwm Esboniadol wedi'i baratoi ac wedi'i osod gyda'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Huw Irranca-Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ac at Chris Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Jane

**Jane Hutt AC/AM**
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip